# Papur y Bwrdd

13 Gorffennaf 2017

| | |
|---|---|
| **Teitl y Papur:** | **Cyllido'r gwaith o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy** |
| **Cyfeirnod y Papur:** | **NRW B B 32.17** |
| **Noddir y Papur gan:** | **Ceri Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu** |
| **Cyflwynir y Papur gan:** | **Simon Neale, Rheolwr Rheoleiddio'r Dyfodol**<br>**Karl Shepherd, Uwch-gynghorydd** |

| | |
|---|---|
| **Diben y Papur:** | **Penderfyniad** |
| **Argymhellion:** | Rydym yn argymell cefnogi'r gwaith o ddatblygu ein cynllun codi ffioedd yn y dyfodol yng nghyd-destun ehangach Fframwaith Cyllid ar gyfer Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy, gan ein galluogi i geisio cefnogaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer newid (Opsiwn 4/5).<br><br>Rydym yn argymell cefnogi'r ddogfen strategaeth ddrafft (gweler Atodiad A) sy'n disgrifio ein dull a'n naratif codi ffioedd ar gyfer y dyfodol, "Cyllido'r gwaith o Reoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy – Rôl strategol Fframwaith Codi Ffioedd Cyfoeth Naturiol Cymru", y byddwn yn ei defnyddio i ymgysylltu â Llywodraeth Cymru wrth geisio ei chefnogaeth ar gyfer newid. |

| | |
|---|---|
| **Effaith:** Noder – efallai nad yw pob pennawd yn berthnasol i'r pwnc | Sut y mae'r cynigion yn y papur hwn yn helpu Cyfoeth Naturiol Cymru i gyflawni egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o ran:<br><br>**Ystyried y <u>tymor hir:</u>**<br>Mae'r strategaeth/naratif yn ystyried sut i sicrhau Fframwaith Cyllid ar gyfer Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy yn y dyfodol, y gall Cyfoeth Naturiol Cymru ddatblygu ei gynllun codi ffioedd o fewn iddo. |

| | |
|---|---|
| | **Defnyddio dull <u>integredig</u>:**<br>Mae'r strategaeth/naratif yn edrych y tu hwnt i gynllun codi ffioedd Cyfoeth Naturiol Cymru, tuag at Fframwaith Cyllid ehangach ar gyfer Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy.<br><br>**Cynnwys <u>amrywiaeth</u> o'r boblogaeth:**<br>Ddim yn berthnasol<br><br>**Gweithio mewn modd <u>cydweithrediadol</u>:**<br>Mae'r strategaeth/naratif yn amlygu'r angen i weithio gydag eraill i nodi'r trefniadau ariannu gorau, gan chwilio am ddulliau cyflenwol.<br><br>**<u>Atal</u> problemau rhag digwydd:**<br>Gallai'r strategaeth/naratif, os bydd yn arwain at Fframwaith Cyllid ar gyfer Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy, optimeiddio ymyriadau, gan gynnwys cymryd camau cynnar a rhwystrol. |

**<u>Pwnc</u>**

1. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gymhwyso ei hegwyddorion datblygiad cynaliadwy yn eu gwaith. Atgyfnerthir hyn gan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn y gofynion penodol cysylltiedig â Cyfoeth Naturiol Cymru, a chan y gwaith o gyflenwi rheolaeth gynaliadwy o adnoddau naturiol.

2. Mae cyflenwi'r uchelgeisiau'n mynnu buddsoddiad, boed o ran arian, amser, arbenigedd neu adnoddau naturiol. Gan fod pwysau sylweddol ar gyllid cyhoeddus a bod y defnydd o gyllid cyhoeddus yn cael ei graffu, mae angen ystyried beth allai'r dyfodol fod ar gyfer cyllido'r uchelgeisiau hyn, y rolau y gall y darpariaethau sydd ohoni eu chwarae, nodi bylchau, a'r posibilrwydd ar gyfer dulliau newydd.

3. Rydym yn ceisio disgrifio hyn mewn naratif strategol, "*Cyllido'r gwaith o Reoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy – Rôl strategol Fframwaith Codi Ffioedd Cyfoeth Naturiol Cymru a sut mae hwn yn gweithio yn y model cyllido ehangach ar gyfer Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy*", i'w ddefnyddio wrth ymgysylltu ag eraill ac, yn arbennig, i sbarduno trafodaeth â swyddogion Llywodraeth Cymru (gweler Atodiad A). I gyd-fynd â hyn, mae dogfen sy'n amlinellu'r opsiynau ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru mewn perthynas â chodi ffioedd, a ph'un a ydym yn dymuno canlyn y weledigaeth sydd wedi'i hamlinellu yn y naratif strategol (gweler Atodiad B), a dechrau ymgysylltu a thrafod â Llywodraeth Cymru.

## Cefndir

4. Ym mis Ebrill 2014, gwnaeth Papur Bwrdd gyflwyno ein dull o godi ffioedd gan nodi dwy elfen: cynnal a diweddaru ein cynllun codi ffioedd sydd ohoni, a datblygu cynllun codi ffioedd newydd.

5. Ers hynny, mae mwy o bwysau a mwy o graffu wedi bod ar gyllid cyrff cyhoeddus gan ein harwain at ymgymryd ag ymchwiliadau i'n cynllun codi ffioedd presennol i chwilio am anghysondebau neu am feysydd lle gellid codi ffioedd lle na chodwyd ffioedd yn hanesyddol. Gwnaeth y gwaith hwn ein harwain at gyflwyno elfennau newydd i'n cynllun codi ffioedd, e.e. lluoswyr bandiau cydymffurfiaeth ar gyfer safleoedd gwastraff caniataëdig, ffioedd ar gyfer cydymffurfiaeth â diogelwch cronfeydd dŵr, cyfuno ffioedd ar gyfer trwyddedau perygl llifogydd i symleiddio'r ffi, a newid y ffioedd ar gyfer ffermydd dwys a ganiateir o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol.

6. Yn ogystal, mae'r sefydliad wedi edrych ar ein gwaith i gyd trwy'r Adolygiadau Maes Busnes, gan ystyried ein hegwyddorion, ein dulliau o weithio, ein hadnoddau a'n hincwm. Rhoddwyd blaenoriaeth i'r gwaith hwn yn hytrach na datblygu model cynllun codi ffioedd newydd, a gwnaeth amlygu heriau sylfaenol y bydd angen mynd i'r afael â nhw cyn symud ymlaen ag unrhyw newidiadau arwyddocaol i'n cynllun codi ffioedd cyfredol.

7. Rydym yn ymwybodol hefyd o uchelgeisiau posibl Llywodraeth Cymru ynghylch deddfwriaeth bellach, ac o'r cyfleoedd a'r heriau sy'n codi yn sgil ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd (UE). Mae hyn yn rhoi cyfle i Cyfoeth Naturiol Cymru ddylanwadu ar y broses a sicrhau ymhellach bod y fframwaith priodol ar waith i ddiogelu'r gwaith o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ac i wneud cynnydd yn erbyn y nodau llesiant.

## Asesu


8. Oherwydd y pwysau y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn eu hwynebu, rydym wedi canolbwyntio ein hadnoddau ar addasu ac estyn ein cynllun codi ffioedd presennol yn hytrach na dechrau datblygu dull newydd, mwy dyfeisgar o godi ffioedd. Gwnaeth yr ymarfer hwn amlygu'r rhwystrau sylweddol sy'n deillio o ddefnyddio Deddf Cyrff Cyhoeddus 2011 i sefydlu Cyfoeth Naturiol Cymru (e.e. gallu cyfreithiol i godi ffioedd am drwyddedau torri coed) y mae angen mynd i'r afael â nhw cyn unrhyw newid sylweddol, heb sôn am gyflwyno dull cyllid dyfeisgar, hollgynhwysol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

9. Mae ein cynllun codi ffioedd dim ond yn rhan o ddarlun cyllid ehangach ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, a dim ond trwy ddeall y darlun hwn y gallwn ddatblygu cynllun dyfeisgar yn well, a all gefnogi'r gwaith o gyflenwi rheolaeth gynaliadwy o adnoddau naturiol. Rydym yn amlinellu strategaeth, felly, sy'n egluro sut rydym yn gweld y darlun ehangach hwn (Atodiad A), i lywio'n trafodaethau â Llywodraeth Cymru ac i'n helpu i lywio'n hegwyddorion.

10. Rydym yn bwriadu amlinellu sut rydym yn dychmygu'r dirwedd eang ar gyfer cyllido amcanion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, er mwyn darparu cyd-destun ar gyfer mecanweithiau cyllid/codi ffioedd penodol a sut y gall y rhain fod yn gysylltiedig a/neu ategu ei gilydd. Mae'n bwysig ein bod yn cymryd y safbwynt strategol hwn oherwydd er ei bod yn haws bod yn ddetholus a thargedu mecanweithiau presennol sydd â phroblemau cyfredol, ni fyddai hyn yn digwydd yn y cyd-destun ehangach ac felly byddai'n methu â chefnogi'r gwaith o gyflenwi'r darlun ehangach.

11. Rydym yn cydnabod bod y darlun eang hwn ar gyfer cefnogi sgyrsiau ag eraill yn unig, yn arbennig Llywodraeth Cymru, am ei bod yn annhebygol y byddwn yn cael mynediad at neu reolaeth dros nifer o'r mecanweithiau ehangach. Bydd y darlun eang hwn, fodd bynnag, yn darparu gwell dealltwriaeth o sut i ymdrin â'r mecanweithiau hynny sydd o fewn cwmpas Cyfoeth Naturiol Cymru – er enghraifft, cynlluniau codi ffioedd, taliadau am wasanaethau ecosystem ac ati – a bydd yn llywio'r agweddau hynny lle byddem yn dymuno peri newid.

12. Mae'r opsiynau a ystyriwyd wrth arwain at yr argymhelliad wedi'u manylu yn Atodiad B, ac wedi'u crynhoi yn y darlun isod.




13. Mae trafodaethau yn ystod cyfarfod y Tîm Gweithredol yn cymeradwyo opsiynau 4 neu 5. Opsiwn 5 yw'r mwyaf uchelgeisiol, ac ymddengys ei fod yn integreiddio'n llwyr cynllun codi ffioedd Cyfoeth Naturiol Cymru i fframwaith cyllid ehangach ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, fel y disgrifiwyd yn ein naratif strategol. Mae hyn yn adlewyrchu'r ymgysylltiad â Llywodraeth Cymru hefyd i alluogi i gynllun codi ffioedd

Cyfoeth Naturiol Cymru gael ei adolygu o fewn fframwaith cyllid ehangach ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Byddai cymeradwyo hyn yn ein galluogi i drafod ymhellach â Llywodraeth Cymru am fwy o gyllid ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, gan gynnwys rôl cynllun codi ffioedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn hyn o beth.

**Argymhellion**

14. Rydym yn argymell cefnogi'r gwaith o ddatblygu ein cynllun codi ffioedd ar gyfer y dyfodol yng nghyd-destun ehangach fframwaith cyllid ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, gan ein galluogi i geisio cymorth Llywodraeth Cymru ar gyfer newid (Opsiwn 4/5).

15. Rydym yn argymell cefnogi'r ddogfen strategaeth ddrafft (Atodiad A) sy'n disgrifio ein dull a'n naratif codi ffioedd ar gyfer y dyfodol, "*Cyllido'r gwaith o Reoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy – Rôl strategol Fframwaith Codi Ffioedd Cyfoeth Naturiol Cymru"*, y byddwn yn ei defnyddio i ymgysylltu â Llywodraeth Cymru wrth geisio ei chefnogaeth ar gyfer newid.

*Y Camau Nesaf*

16. Wrth gymeradwyo opsiwn 4/5, byddem yn:

- Defnyddio'r strategaeth/naratif i ymgysylltu â swyddogion Llywodraeth Cymru ynghylch dull cyllid ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy;
- Gwneud cynnydd gyda'r gwaith o ddatblygu cynllun codi ffioedd diwygiedig Cyfoeth Naturiol Cymru yn seiliedig ar y naratif;
- Yn y cyfamser, parhau â newidiadau tymor byr neu interim (h.y. cynnal a chadw) a nodwyd yn y cynlluniau codi ffioedd presennol.

**Risgiau Allweddol**

17. Er y gall cyfleoedd godi o ganlyniad i newidiadau deddfwriaethol pellach sy’n cael eu harchwilio gan Lywodraeth Cymru, risg allweddol yw'r ffaith y gall y rhain gael eu gorbwyso gan yr ymateb i ymadawiad y DU o'r UE. Gall hyn beri oedi felly i'r gwaith o ddatblygu opsiwn 4/5 lle mae newid deddfwriaethol penodol yn ofynnol, ond na ellir ei gynnwys yn y newidiadau deddfwriaethol angenrheidiol i ymdrin â'r ymadawiad â'r UE.

18. Ceir disgrifiad o risgiau pellach yn y papur yn Atodiad B.

**Goblygiadau Ariannol**

19. Mae cynllun codi ffioedd cyfredol Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyfrif am £37m o incwm y flwyddyn. Rhaid pennu ffioedd yn unol ag egwyddorion “Canllawiau Ffioedd a

Thaliadau Trysorlys Ei Mawrhydi” a “Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru”, sy'n cynnwys rheolau ar adennill costau llym heb groes-gymhorthdal rhwng cyfundrefnau.

20. Ar hyn o bryd, mae'r cyllid sydd wedi newid o ganlyniad i gynllun codi ffioedd newydd Cyfoeth Naturiol Cymru ac unrhyw gyllid arall a all godi trwy'r fframwaith cyllid mwy cynhwysfawr ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn anhysbys. Gall cynllun codi ffioedd newydd Cyfoeth Naturiol Cymru arwain at lefelau incwm uwch neu is ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru a thaliadau uwch neu is ar gyfer talwyr ffioedd. Fodd bynnag, bydd y rhain yn dryloyw ac yn cael eu cyfiawnhau dan y fframwaith polisi a deddfwriaeth perthnasol.

21. Ceir disgrifiad o oblygiadau ariannol pellach yn y papur yn Atodiad B.

**Asesu’r Effaith ar Gydraddoldeb**

22. Gan fod y strategaeth/naratif wedi'i ysgrifennu fel dogfen strategol nad yw'n wynebu'r unigolyn, nid yw asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb yn ofynnol.

**Mynegai o Atodiadau**

Atodiad A – Cyllido'r gwaith o Reoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy – Rôl strategol Fframwaith Codi Ffioedd Cyfoeth Naturiol Cymru a sut mae hwn yn gweithio yn y model cyllido ehangach ar gyfer Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy

Atodiad B – Cyllido'r gwaith o Reoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy – Opsiynau a Chamau Nesaf Cyfoeth Naturiol Cymru